**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol

**Siambr y Cyngor, Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Gwener, 8 Rhagfyr 2017 am 10.00am**

**Yn Bresennol:** Y Cynghorydd P M Matthews (Cadeirydd) fu'n llywyddu
Y Cynghorydd P Downing (Is-Gadeirydd) fu'n llywyddu ar gyfer eitem 69

| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** |
|---|---|---|
| C Anderson | J P Curtice | P Downing |
| V M Evans | S J Gallagher | P Lloyd |
| H M Morris | C L Philpott | L G Thomas |
| L V Walton | | |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| L Anthony | Swyddog Adrannol - Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch |
| A Evans | Swyddog Iechyd yr Amgylchedd |
| R Jenkins | Swyddog Trwyddedu |
| P Livingstone | Swyddog Adrannol - Rheolwr Busnes Tai |
| L Thomas | Uwch-gyfreithiwr |
| S Woon | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorwr: B J Rowlands

---

## 61 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddiannau canlynol:

Y Cynghorydd C Anderson – Personol a Rhagfarnol – Cofnod Rhif 69 - Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847 - Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 - Cais i Ganiatáu Trwydded Yrru Cerbyd Hacni a Hurio Preifat - FEB - Rwy'n adnabod FEB. Gadawodd y Cynghorydd C Anderson y cyfarfod cyn ystyried yr eitem hon.

## 62 Cofnodion

**Penderfynwyd** cytuno bod cofnodion y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol a gynhaliwyd ar 10 Tachwedd 2017 yn gofnod cywir.

## 63 Canlyniad yr apêl

Cyflwynodd y Swyddog Adrannol - Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch adroddiad a oedd yn rhoi manylion am apêl, a chofnodwyd hyn.

## 64 Gwahardd y Cyhoedd

Gofynnwyd i'r Pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitemau busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad ar y sail eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel a nodir ym mharagraff gwahardd 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y Pwyllgor Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel a nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** y dylid gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol.

**(Sesiwn Gaeëdig)**

## 65 Trwyddedu HMO – Deddf Tai 2004 – Statws Person Addas a Phriodol - PA.

Darparodd y Swyddog Adrannol, sef y Rheolwr Busnes Tai, fanylion cefndir mewn perthynas â thrwyddedu HMO, Deddf Tai 2004 a Statws Person Addas a Phriodol mewn perthynas â PA.

Gofynnodd yr aelodau gwestiynau i'r swyddogion a ymatebodd yn briodol.

Esboniodd PA yr amgylchiadau mewn perthynas â'r tramgwyddau ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

**Penderfynwyd ar y canlynol:**

1. Bod y Swyddogion yn penderfynu a gwblhawyd y gwaith a oedd yn weddill yn yr adroddiad ac a ddarparwyd y tystysgrifau nwy perthnasol angenrheidiol ar gyfer y grant: a
2. Gohirio'r mater tan gyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol ar 12 Ionawr 2018.

## 66 Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847 - Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 - Deddf Cydraddoldeb 2010 - Teithwyr mewn Cadeiriau Olwyn - Cais am Dystysgrif Eithrio - SPL.

Manylodd y Swyddog Adrannol - Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch ar yr wybodaeth gefndir mewn perthynas â chais SPL am Dystysgrif Eithrio.

Gofynnodd yr aelodau gwestiynau i'r swyddog a ymatebodd yn briodol.

Esboniodd SPL yr amgylchiadau mewn perthynas â'r cais ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

**Penderfynwyd** cymeradwyo cais SPL am dystysgrif i eithrio cludo teithwyr mewn cadeiriau olwyn tan 31 Gorffennaf 2018.

**67 Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847 - Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 - Deddf Cydraddoldeb 2010 - Teithwyr mewn Cadeiriau Olwyn - Cais am Dystysgrif Eithrio - LAJC.**

Manylodd y Swyddog Adrannol - Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch ar yr wybodaeth gefndir mewn perthynas â chais LAJC am Dystysgrif Eithrio.

Gofynnodd yr aelodau gwestiynau i'r swyddog a ymatebodd yn briodol.

Esboniodd LAJC yr amgylchiadau a oedd yn ymwneud â'r cais ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

**Penderfynwyd** cymeradwyo cais LAJC am dystysgrif i eithrio cludo teithwyr mewn cadeiriau olwyn tan 8 Rhagfyr 2018.

**68 Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847 - Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 - Deddf Cydraddoldeb 2010 - Teithwyr mewn Cadeiriau Olwyn - Cais am Dystysgrif Eithrio - AK.**

Manylodd y Swyddog Adrannol - Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch ar yr wybodaeth gefndir mewn perthynas â chais AK am Dystysgrif Eithrio.

Esboniodd AK yr amgylchiadau a oedd yn ymwneud â'r cais ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

**Penderfynwyd** cymeradwyo cais AK am dystysgrif i eithrio cludo teithwyr mewn cadeiriau olwyn tan 8 Mehefin 2018.

**[Bu'r Cynghorydd P Downing, Is-Gadeirydd, yn llywyddu ar gyfer Cofnod 69 yn unig]**

**69 Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847 - Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 - Cais i Ganiatáu Trwydded Yrru Cerbyd Hacni a Hurio Preifat - FEB.**

Manylodd y Swyddog Adrannol - Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch, ar yr wybodaeth gefndir mewn perthynas â chais FEB am drwydded yrru cerbyd hacni a hurio preifat.

Gofynnodd yr aelodau gwestiynau i'r swyddogion a ymatebodd yn briodol.

Esboniodd FEB amgylchiadau'r drosedd ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

**Penderfynwyd** y dylid **cymeradwyo** cais FEB am drwydded yrru cerbyd hacni a hurio preifat ac i FEB dderbyn llythyr rhybuddio ynghylch ymddygiad yn y dyfodol.

**[Y Cynghorydd P M Matthews, Cadeirydd, oedd yn llywyddu]**

## 70 Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847 – Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 – Trwydded Yrru Cerbyd Hacni a Hurio Preifat – DM.

Ymddiheurodd y Cadeirydd a'r Uwch-gyfreithiwr a gwnaethant esbonio'r amgylchiadau a wnaeth arwain at gyfnod o oedi cyn clywed achos DM.

Nododd DM y byddai wedi trefnu cynrychiolaeth gyfreithiol petai wedi bod yn ymwybodol o drefniadau’r pwyllgor o ran y mater hwn.

Yn sgîl cynnig gan y Cadeirydd i ohirio, cadarnhaodd DM ei fod am barhau.

Manylodd y Swyddog Adrannol - Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch ar yr wybodaeth gefndir mewn perthynas â DM.

Esboniodd DM amgylchiadau'r troseddau ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

**Penderfynwyd** rhoi llythyr rhybuddio cryf i DM ynghylch ymddygiad yn y dyfodol.

Daeth y cyfarfod i ben am 1.17 pm

**Cadeirydd**